# Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## MATERION TGCh ADDYSG

### Pwnc

1. Diweddariad ar gynnydd mentrau'r Cynulliad i wella darpariaeth TGCh ar gyfer ysgolion. Mae'r papur hwn yn ymdrin â:

- rhoi argymhellion y pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar waith;
- strategaeth band llydan ar gyfer Cymru;
- Dysgu trwy TGCh; a'r
- Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu.

### Argymhellion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes:

2. Mae cynnydd wedi digwydd erbyn hyn o ran rhoi argymhellion allweddol y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn yr adroddiad ar TGCh mewn ysgolion ar waith. Rydym wedi derbyn enwebiadau ar gyfer y **Panel Ymgynghorol ar TGCh** gan amrediad eang o sefydliadau. Bwriedir cynnal cyfarfod cyntaf y Panel ar 22 Tachwedd.

3. Cyhoeddwyd hysbysiadau yn OJEC fis Medi yn gwahodd cwmnïau a sefydliadau i fynegi diddordeb ynghylch contractau'r Tasglu TGCh a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (NGfL Cymru). Byddwn yn dosbarthu gwahoddiadau i dendrau i'r 5 sefydliad sydd ar y rhestr fer ar gyfer pob contract ar 26 Tachwedd. Byddwn hefyd yn gofyn i'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer i wneud cyflwyniadau i'r Panel Ymgynghorol yn ystod y broses dendro.

4. Rydym wedi sefydlu gweithgor bychan gyda chynrychiolwyr yr AALl, Estyn a CLlLC er mwyn datblygu cynigion manwl ar gyfer yr archwiliad TGCh. Mae'r gweithgor hefyd yn edrych ar y trefniadau monitro a gwerthuso ar gyfer menter Dysgu trwy TGCh. Caiff cynigion eu cyflwyno i'w hystyried gan y Panel Ymgynghorol.

**Band Llydan**

5. Ar 24 Hydref, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fanylion ynghylch pecyn cyllid o £18.4m ar gyfer cychwyn y gwaith o ddatblygu rhwydwaith band llydan ledled Cymru eleni. Mae’r pecyn hwn yn cynnwys:

A. cysylltiadau band llydan i AALl;
B. cymeradwyaethau credyd a rhywfaint o gymhorthdal ar gyfer cysylltiadau o fewn AALl;
C. offer amlgyfrwng ar gyfer ysgolion;
D. cefnogaeth a hyfforddiant parhaus;

6. Un o brif amcanion y strategaeth band llydan yw gwella’r isadeiledd TGCh ar gyfer dysgu gydol oes ac un o’r prif flaenoriaethau fydd darparu cysylltiadau band llydan ar gyfer ysgolion, llyfrgelloedd a cholegau – gan adeiladu ar rwydwaith SuperJanet. Yn unol â’r nod hwn, mae’r cyllid band llydan a gyhoeddwyd fis diwethaf yn cynnwys £9.9 miliwn ar gyfer darparu set o fyrddau gwyn rhyngweithiol, taflunyddion data a chyfrifiaduron amlgyfrwng ar gyfer pob ysgol yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2002. Bydd pob ysgol gynradd, a phob ysgol arbennig yn derbyn un set, a bydd ysgolion uwchradd yn derbyn o leiaf tair set. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i ddatblygu’r defnydd o TGCh ar gyfer dysgu’r dosbarth gyfan ac i ddefnyddio’r deunyddiau Digidol ar gyfer y Cwricwlwm sy’n cael eu datblygu gan BBC Cymru ac eraill.

7. Caiff cyllid ei ddosbarthu trwy’r awdurdodau addysg lleol ac ar hyn o bryd, rydym yn trafod ag ymgynghorwyr TGCh yr awdurdodau ynghylch rhoi’r trefniadau ar waith. Bydd rhywfaint o hyblygrwydd i’r Awdurdodau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu bodloni’r anghenion penodol o fewn eu hardal – er enghraifft er mwyn cefnogi unedau anghenion arbennig mwy o faint mewn ysgolion uwchradd.

**Dysgu trwy TGCh**

8. Cyhoeddwyd Prosbectws Dysgu trwy TGCh ddechrau’r flwyddyn oedd yn gwahodd cynigion ar gyfer defnyddio’r £16 miliwn i wella cyfleusterau TGCh mewn ysgolion a’r gymuned. Mae pedwar nod allweddol yn Dysgu trwy TGCh:

- codi safonau cyrhaeddiad mewn ysgolion;
- cefnogi dysgu gydol oes;
- gwella sgiliau TGCh; a

- mynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol drwy sicrhau bod

pawb yn gallu manteisio ar TGCh.

9. Ym mis Ebrill, cyhoeddais bod cynlluniau gwariant gan awdurdodau addysg lleol wedi eu cymeradwyo, a fydd yn darparu canolfannau dysgu TGCh mewn dros 240 o ysgolion a 160 o leoliadau cymunedol; 16 "canolfan" symudol sy’n defnyddio cyfrifiaduron symudol; ac amrediad o gefnogaeth gwerth £0.5 miliwn ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae’r AALl erbyn hyn yn y broses o roi’r cynlluniau hyn ar waith ledled Cymru. Dosbarthwyd cyllid rhwng AALl ar sail fformwla oedd yn cynnwys mesurau ar gyfer amddifadedd cymdeithasol a phrinder poblogaeth.

10. Mae’r menter Dysgu trwy TGCh yn rhan allweddol o raglen y Cynulliad ar gyfer mynd i’r afael ag anfantais cymdeithasol. Yn ogystal â sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer canolfannau dysgu wedi ei ganolbwyntio yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o fewn pob awdurdod, clustnodwyd £0.5 miliwn o’r gyllideb Dysgu trwy TGCh i gefnogi prosiectau i gynyddu mynediad i TGCh mewn Ardaloedd Rhoi Cymunedau’n Gyntaf. Yn ddiweddar, rydw i wedi cymeradwyo’r defnydd o’r cyllid hwn i gefnogi naw prosiect:

- **Cymdeithas Addysg, Diwylliant a Chelfyddydau Affro-Celtaidd –** 10 cyfrifiadur â mynediad i’r Rhyngrwyd ac argraffwyr i’w defnyddio i hyfforddi disgyblion/oedolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd;

- **Cynnal** cynllun benthyg cyfrifiaduron wedi eu hailgylchu ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 a’u rhieni;

- **Sefydliad E-Ddysgu Sir Ddinbych** prosiect yn y Rhyl/Gorllewin y Rhyl (ward mwyaf difreintiedig Cymru);

- **Sefydliad E-Ddysgu Merthyr Tudful** prosiect ar gyfer clwstwr ysgol uwchradd a’r ysgolion cynradd sy’n ei bwydo;

- **Cymdeithas Gymunedol Mount/ Porth i Ddysgu trwy TGCh** – cynllun benthyg cyfrifiaduron côl ar gyfer teuluoedd ar ystadau Mount a Hubberston, Sir Benfro;

- **Clybiau Lego Teuluol Sir Benfro mewn Canolfannau Dysgu TGCh.** Clybiau ar ôl ysgol, penwythnosau a gwyliau i annog rhieni ac ysgolion i ddatblygu sgiliau TGCh trwy ddefnyddio meddalwedd dylunio Lego;

- **AALl Sir Benfro/ Canolfan Ddysgu Monkton Priory –** 15 cyfrifiadur côl a 2 argraffydd symudol i'w defnyddio yn y cartref/ yn y ganolfan astudio gan blant o deuluoedd sipsiwn;

- **Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf –** Cyfrifiaduron côl i'w defnyddio ar gyfer nifer o brosiectau celfyddydau digidol yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar bobl sy'n llai abl i ymweld â chanolfannau prosiect;

- **Canolfannau Dysgu Teuluol Rhondda Cynon Taf** – Canolfannau Dysgu trwy TGCh yn seiliedig mewn ysgolion cynradd yn ogystal â chronfeydd o gyfrifiaduron côl i'w benthyg i ddisgyblion/ teuluoedd i'w defnyddio yn y cartref

12. Mae Dysgu Trwy TGCh hefyd wedi darparu cyllid i gefnogi prosiect rhifedd cenedlaethol gan gynnwys cyflenwi cyfrifiaduron symudol i 330 o athrawon ysgolion cynradd; cyfrifiaduron côl ar gyfer pennaeth pob ysgol uwchradd; a gwelliannau i'r isadeiledd TGCh ar gyfer y llyfrgell genedlaethol a'r amgueddfeydd cenedlaethol er mwyn eu galluogi i ddarparu adnoddau dysgu digidol. Mae'r fenter yn ategu datblygiadau perthynol gan gynnwys:

- rhaglen Community Access to Lifelong Learning a gyllidir gan y loteri (£13 miliwn yng Nghymru gan gynnwys £6.5m ar gyfer datblygu'r People's Network mewn llyfrgelloedd cyhoeddus);

- datblygu Prifysgol i Ddiwydiant yng Nghymru;

- £50 miliwn o gyllid sydd ar gael ledled y DU ar gyfer digideiddio dysgu. .

**Y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (a gyllidir gan GCAH)**

13. Rydym wedi bod yn darparu cyllid ers 1998-99 i gynnal cyfranogiad ysgolion yn y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu. Darparwyd £30 miliwn trwy grantiau GCAH i awdurdodau addysg lleol yn ystod y cyfnod hwn. Mae cyllid GCAH wedi cyllido:

- cysylltu ysgolion â'r Rhyngrwyd er mwyn sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru wedi ei chysylltu erbyn 2002. Mae data gan yr AALl yn cadarnhau ein bod yn

symud tuag at gyflawni’r targed hwn.

- prynu offer TGCh;
- hyfforddiant TGCh ar gyfer athrawon a staff eraill yn yr ysgolion; a
- chefnogaeth ar gyfer **prosiectau lleol** i ddatblygu arferion da o ran defnyddio TGCh ar gyfer codi safonau*. Bydd yr AALl yn gwneud cyflwyniad i’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar nifer o’r rhain yn ystod y cyfarfod ar 14 Tachwedd.*

14. Bydd £8.4 miliwn yn ychwanegol o gyllid GCAH ar gael ar gyfer datblygiadau TGCh yn 2002-03. Ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, bydd y lefelau cyllid yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys y strategaeth a ddatblygwyd gan y Tasglu TGCh, argymhellion y Panel Ymgynghorol ar TGCh a chanlyniad yr archwiliad o TGCh.

**Hyfforddiant TGCh y Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF)**

15. Mae athrawon a llyfrgellwyr ysgolion ledled Cymru hefyd yn elwa o hyfforddiant TGCh a gyllidir gan y loteri sy’n cael ei reoli gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF). Mae’r ffigurau cyfranogiad a ddarparwyd gan NOF ar gyfer diwedd Tymor yr Haf 2001 yn dangos bod 73% o ysgolion wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant mewn camau ac y bydd bron i 100% wedi cofrestru erbyn diwedd mis Mawrth 2002 pan fydd y cyfnod cofrestru yn dod i ben. Bydd yr hyfforddiant yn parhau hyd ddiwedd mis Mawrth 2003, gyda’r posibilrwydd o ymestyn yr hyfforddiant ar gyfer rhai darparwyr hyd at fis Rhagfyr 2003. Mae’r holl ddarparwyr hyfforddiant yng Nghymru wedi bod yn destun gwiriadau sicrhau ansawdd. Mae Estyn hefyd wedi cynnal arolwg o’r rhaglen hyfforddi yng Nghymru, ac rydym yn ymateb i’r negeseuon allweddol a ddaeth yn sgil hynny gyda NOF a’r awdurdodau addysg lleol.

**Cydymffurfio**

16. Telir cyllid TGCh i AALl o dan adran 484 o Ddeddf Addysg 1996 a’r rheoliadau cysylltiedig. Mae’r pwerau hyn wedi eu trosglwyddo i’r Cynulliad a’u dirprwyo i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Nid oes unrhyw faterion rheioleidd-dra a phriodoldeb yn deillio o’r cynigion yn y papur hwn. Yn ôl yr arfer, anfonwyd copi o’r papur hwn er gwybodaeth at flwch post Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad.

**Goblygiadau Ariannol**

17. Caiff y mentrau a amlinellir yn y papur hwn eu cefnogi o fewn yr adnoddau a gytunwyd ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys darpariaeth yn llinellau gwariant cyllideb TGCh y GCAH ac Addysg) ac o gyllid ar gyfer y strategaeth band llydan a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid yn y datganiad ar y gyllideb ddrafft. Nid yw’r papur hwn yn creu unrhyw oblygiadau ariannol pellach. Yn ôl yr arfer, anfonwyd copi o’r papur hwn at flychau post refeniw LGF ac FP.

**Gweithredu**

16. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r cynnydd a wnaed o ran y mentrau a ddisgrifiwyd yn y papur hwn.